Disgrifiad Swydd
Arweinydd Aelodau Bwyd Cymunedol

Yn adrodd i'r: Pennaeth Datblygu
Yn gyfrifol am: Swyddog Gweinyddol a Chymorth; Swyddog Prosiect
Oriau: Amser llawn (37.5 awr)
Contract: Parhaol
Telerau: 33 diwrnod gan gynnwys gwyliau banc, pro rata. Ar ôl dwy flynedd o wasanaeth, bydd hyn yn cynyddu 1 diwrnod y flwyddyn hyd at uchafswm o 5 diwrnod (pro rata). Bydd 1 diwrnod o absenoldeb gwirfoddol y flwyddyn, hefyd ar gael (pro rata).
Cyflog Dechreuol: £27,318-£29,500

FareShare Cymru

Mae FareShare Cymru yn elusen annibynnol ac yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o elusennau ailddosbarthu bwyd dros ben.

Rydym yn troi problem amgylcheddol yn ddatrysiad cymdeithasol. Rydym yn cyrchu bwyd dros ben o ansawdd da gan fanwerthwyr, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd, gan ymgysylltu gwirfoddolwyr i ailddosbarthu'r bwyd dros ben i elusennau lleol a grwpiau cymunedol sy'n darparu prydau bwyd er mwyn cefnogi eu cymunedau a chynyddu effaith gymdeithasol bwyd dros ben.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i fod yn allweddol wrth gyflawni'r cam nesaf yn ein datblygiad.

Amgylchiadau

Gweithio hybrid – bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o'n warws yng Nghaerdydd ac o'u cartref. Gall y rôl olygu bod angen i ddeiliad y swydd deithio ledled Cymru a mynychu digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith arferol.

Prif Ddiben y Rôl

Mae'r Arweinydd Aelodau Bwyd Cymunedol yn gyfrifol am arwain gwaith ein tîm aelodaeth a chynyddu nifer yr Aelodau Bwyd Cymunedol (ABC) y mae FareShare Cymru yn gweithio gyda nhw, er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ardaloedd newydd, recriwtio ABC i gyflawni strategaeth twf FareShare Cymru a darparu rheolaeth linell i'r tîm aelodaeth i gynorthwyo gyda hyn.

Mae'r ABC yn elusennau a grwpiau cymunedol sy'n defnyddio bwyd i fynd i'r afael ag anghenion yn eu cymunedau lleol, gan ddod â phobl ynghyd i rannu pryd o fwyd, ennill sgiliau newydd ac atal unigedd ac unigrwydd. Mae'r ABC yn cynnwys clybiau brecwast a chinio, hosteli digartref, llochesi, canolfannau adsefydlu cyffuriau ac alcohol a phantrïau cymunedol. Mae'r ABC yn cryfhau cymunedau trwy ddod â phobl ynghyd a darparu gwasanaethau ychwanegol ochr yn ochr â'r bwyd, i wneud y mwyaf o effaith gymdeithasol bwyd dros ben, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymunedau.

Recriwtio a chadw Aelodau Bwyd Cymunedol

- Datblygu ac arwain ar strategaeth recriwtio ABC i sicrhau twf yr ABC yn unol â thargedau twf.
- Darparu rheolaeth linell a chefnogaeth i'r Swyddog Prosiect sy'n gweithio ar ehangu i Orllewin Cymru, ac i'r Swyddog Gweinyddu a Chymorth.
- Recriwtio a chofrestru ABC newydd a chyflawni targedau recriwtio a chynhyrchu incwm yn unol â strategaeth FareShare Cymru.

- Darparu rheolaeth cyfrifon i'r ABC presennol yn Ne-ddwyrain Cymru a'u cefnogi i ddatblygu eu prosiectau bwyd.
- Nodi bylchau yn ein cwmpas o'r rhanbarth a darparu cefnogaeth weithredol i gynhyrchu arweinwyr a recriwtio ABC mewn ardaloedd blaenoriaeth.
- Datblygu cydberthnasau a phartneriaethau newydd er mwyn hwyluso recriwtio ABC ac i wneud y mwyaf o effaith gymdeithasol y bwyd dros ben sy'n cael ei ailddosbarthu.
- Sicrhau bod yr holl gofnodion ABC yn cael eu cynnal.
- Gweithio gyda'r tîm gweithrediadau i ddatblygu'r amserlen ddosbarthu yn ôl yr angen, er mwyn darparu ar gyfer aelodau newydd ac ehangu i ardaloedd newydd.
- Datblygu a gweithredu rhaglen aelodaeth a chadw ABC.
- Gweithio gyda'r tîm aelodaeth, yr Arweinydd Cyrchu Bwyd a Logisteg a'r Pennaeth Datblygu i sicrhau'r mewnbwn mwyaf posibl o fwyd dros ben, gan ddatblygu gwaith i gyflawni hyn yn ôl yr angen.

Monitro, Adrodd a Dadansoddi

- Cynnal cofnodion ABC cywir.
- Cynhyrchu adroddiadau'n rheolaidd, gan ddefnyddio systemau sefydliadol sy'n cynnwys Power Bi, Salesforce a Microsoft Dynamics ar gyfer tîm FareShare Cymru a Phartneriaid Rhwydwaith.
- Monitro'r adrodd yn erbyn targedau ABC allweddol.
- Arwain ar ofynion gwerthuso ac adrodd ar gyfer prosiectau a chyllidwyr sy'n gysylltiedig ag ABC.
- Casglu gwybodaeth am yr amgylchedd y mae'r ABC yn gweithredu ynddo a sicrhau bod llais yr ABC yn cael ei glywed o fewn FareShare Cymru ac yn allanol, gan ddarparu data cywir.
- Adeiladu ar y mapio presennol i ddeall ein ABC, yr hyn maen nhw'n ei wneud, pwy maen nhw'n ei gefnogi a pha gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw, gan weithio gyda phartneriaid allanol i ddatblygu hyn.

Rheolaeth

- Cyfrifoldeb rheoli uniongyrchol dros y Swyddog Gweinyddol a Chymorth a'r Swyddog Prosiect.

Dyletswyddau eraill

- Gwaith cynhyrchu incwm, codi arian a sicrhau cyllid yn ôl yr angen
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni gofynion y swydd a/neu sicrhau gweithrediad FareShare Cymru.

Manyleb y person

Profiad:

- Profiad o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni i gyrraedd targedau, o fewn y sector elusennol.
- Profiad profedig o adeiladu a rheoli cydberthnasau â phartneriaid ac aelodau, yn ddelfrydol o fewn y sector elusennol.
- Profiad o ddarparu rheolaeth uniongyrchol a datblygu timau, er mwyn cyrraedd targedau.
- Profiad o ddadansoddi data, monitro perfformiad a chynhyrchu adroddiadau.
- Profiad o weithio ar draws timau i gyflawni amcanion gweithredol a phrosiectau.
- Profiad profedig o gyrraedd targedau recriwtio a chynhyrchu incwm, a chyflawni canlyniadau mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym.
- Profiad o wneud cyflwyniadau a chynrychioli sefydliad yn allanol.
- Profiad o weithio'n rhan o dîm i gefnogi a chyflwyno prosiectau yn unol â dangosyddion amser, cost ac ansawdd y cytunwyd arnynt.
- Profiad o'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Sgiliau, gwybodaeth a galluoedd:

- Sgiliau rhagorol o ran rheoli cydberthnasau, dylanwadu a negodi.
- Gallu dadansoddi data a defnyddio mewnwelediadau i gefnogi gwneud penderfyniadau.
- Sgiliau datrys problemau cryf a dull ymarferol o ymdrin â heriau gweithredol.
- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Gallu i ysgogi a datblygu staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid.
- Sgiliau TG cymwys, gan gynnwys Microsoft Office a systemau adrodd.
- Sgiliau iaith Gymraeg (dymunol).

Gwerthoedd ac ymddygiadau:

- Dealltwriaeth o genhadaeth a strategaeth FareShare Cymru, a bod â chydymdeimlad â hwy
- Hyblygrwydd o ran dull gweithredu a'r gallu i weithio fel rhan o dîm
- Lefel uchel o gymhelliant ac ymrwymiad, a'r gallu i ddefnyddio menter bersonol
- Parodrwydd i weithio y tu allan i'r swyddfa, pan fo angen
- Parodrwydd a'r gallu i deithio o amgylch Cymru, ac o bosibl y DU, ar adegau
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal.